# HANFODION YSGRIFENNU CV

SIOP SWYDDI

## Enw a Manylion Cyswllt

Cyfeiriad, e-bost, rhif ffôn.

## Proffil Personol

4-5 llinell yn crynhoi eich hun: personoliaeth, medrau, cymeriad a chryfderau - gwybodaeth nodedig sy'n berthnasol i'r mathau o swyddi rydych chi'n gwneud cais amdanyn nhw.

## Sgiliau Craidd

Nodwch eich sgiliau fel pwyntiau bwled gan sôn yn fras pam rydych chi'n meddwl fod gennych chi'r sgiliau hynny.

## Addysg a Chymwysterau

Rhestr gyda'r ysgol/coleg mwyaf diweddar yn gyntaf, cwrs ac unedau/cymwysterau, dyddiadau a graddau.

## Cyflogaeth/Profiad Gwaith

Y diweddaraf yn gyntaf - enw'r sefydliad, dyddiadau, rôl a chyfrifoldebau. Cofiwch sôn am unrhyw waith gwirfoddoli.

## Diddordebau/Gwybodaeth Ychwanegol

Unrhyw ddiddordebau sydd wedi meithrin eich sgiliau, prosiectau rydych chi wedi'u gwneud yn yr ysgol/coleg neu gartref. Cyflawniadau fel Gwobr Dug Caeredin, trwydded yrru ac ati.

## Hyd

1-2 o dudalennau - bydd recriwtwyr prysur ond yn cael cipolwg ar y CV, mae angen iddo ddal eu sylw yn syth.

## Fformat

Defnyddiwch drefn a ffont syml a chlir i'w gwneud yn hawdd i gyflogwyr ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

## Beth mae cyflogwyr yn chwilio amdano mewn CV?

Bydd cyflogwyr yn edrych ar eich sgiliau a phrofiad/cymwysterau i weld pa mor addas allech chi fod i wneud y swydd a gweddu i'r sefydliad.

COLEG CAMBRIA

AR GYFER BUSNES CAMBRIA FOR BUSINESS

**Byddwch yn barod am waith**
**gyda Siop Swyddi Cambria**

www.cambria.ac.uk/job-shop
jobshop@cambria.ac.uk

0300 30 30 006